Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

# Rheolwyr cartrefi gofal i oedolion ar y Gofrestr - 1 Ebrill 2021

## Beth yw'r pwyntiau allweddol?

- Bu'n rhaid i reolwyr cartrefi gofal i oedolion gofrestru gyda ni ers 2011
- Mae 1,314 o reolwyr wedi cofrestru, sef cynnydd bach o gymharu â 1,294 yn 2020
- 49 yw oedran cyfartalog rheolwyr
- Rhaid i weithwyr cartrefi gofal i oedolion gofrestru erbyn Hydref 2022.

## Beth yw'r tueddiadau pum mlynedd?

- Mae'r ystadegau sy'n gysylltiedig â'r grŵp hwn o weithwyr ar ein Cofrestr yn sefydlog
- Ni fu newid i'r gymhareb menywod a dynion, sef 4:1
- Mae canran y rheolwyr sydd â chymhwyster Lefel 5 presennol y FfCC wedi dyblu o 24% yn 2016 i 51% eleni
- Cynyddodd canran y rheolwyr sy'n siarad ychydig o Gymraeg, neu sy'n rhugl, o 34% i 43%.

## Faint ymunodd â'r Gofrestr a'i gadael?

- Yn y flwyddyn ddiwethaf, gadawodd 142 o reolwyr y Gofrestr ac ymunodd 162 - trosiant o 11%
- Ni wnaeth 47% o'r rhai a ymadawodd gynnal eu cofrestriad
- Fe wnaeth 13% ymddeol
- Nid oedd 13% yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru mwyach
- Arhosodd 9% ar y Gofrestr mewn rôl wahanol.

## Pa gymwysterau sydd gan reolwyr?

- Mae gan holl reolwyr cartrefi gofal i oedolion gymhwyster perthnasol
- Bellach, mae gan 51% ohonynt Ddiploma Lefel 5 presennol y FfCC mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheolaeth Gofal Breswyl Oedolion)
- Mae gan bob un o'r lleill gymhwyster cyfatebol derbyniol.

## Ble mae rheolwyr yn gweithio?

- Mae 82% yn gweithio yn y sector preifat
- Mae 11% yn gweithio mewn gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol
- Mae 6% yn gweithio yn y trydydd sector
- Mae 27% o reolwyr wedi bod yn eu rôl bresennol ers dros 10 mlynedd
- Mae 50% o reolwyr wedi dechrau rôl newydd o fewn y pum mlynedd diwethaf.

## Beth yw proffil rheolwyr?

- Mae 1048 o fenywod a 266 o ddynion
- 49 yw oedran cyfartalog rheolwyr
- Mae 94% o reolwyr yn wyn, gwyn Prydeinig, gwyn Cymreig neu wyn Gwyddelig
- Mae 43% o reolwyr yn siarad rhywfaint o Gymraeg neu maent yn rhugl
- Mae gan lai nag 1% o reolwyr anabledd.